



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 10 Ebrill 2018 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 10 April 2018 at 6.30pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors Richard Jones (yn y gadair/in the chair),** John Adams-Lewis, Clive Davies, Graham Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O’Neill, Trystan Phillips, Shan Williams a’r Clerc, Mr Wynford Jones.

**1. Croeso’r Cadeirydd a Materion Personol.**

The Chair’s Welcome and Personal Matters.

**Croesawodd y Maer, y Cyng. Richard Jones, bawb i’r cyfarfod. Cyfeiriodd at farwolaeth Cyn-Esgob Bangor y Gwir Barchedig Saunders Davies, un a fu’n gwasanaethu’r Eglwys yng Nghymru gydag urddas arbennig ac a ymgartrefodd yn Aberteifi. Coffa da amdano.**

**Dywedodd y Maer ei fod wedi ei gyfweled gan gwmmi teledu o Awstralia cyn y cyfarfod heno ynghylch cwmni Hiut Denim oedd yn gyfrifol am y dilledyn a wisgwyd gan Meghan Markle ryw dro yn ôl o wneuthuriad y cwmni sydd yn gweithio allan o stad ddiwylliannol Parc Teifi. Yn dilyn hyn, dymunwyd yn dda i Mr David Hieatt am barhau â’i gynlluniau i ailagor hen safle Dewhirst yn ardal Bath House.**

The Mayor, Cllr Richard Jones, welcomed everyone to the meeting. He referred to the passing of the Right Reverend Saunders Davies, Past Bishop of Bangor, who had served the Church in Wales with distinction for many years. He will be fondly remembered.

The Mayor stated that prior to this evening’s meeting he had been interviewed by an Australian television company regarding the development of the Hiut Denim establishment in Parc Teifi; this materialised following the disclosure of the royal bride-to-be Meghan Markle previously wearing one of the company’s pair of jeans. As a postscript, the relocating and potential expansion of the company by Mr David Hieatt to the old Dewhirst factory at Bath House was warmly welcomed by members.

**2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyngh. / Cllrs Elaine Evans (materion teuluol / family matters)**

**3. Cyflwyniad gan / Presentation by Ms Rowan O’Neill.**

**Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Rowan am ei habsenoldeb.**

An apology has been received from Rowan for her unavailability to be present.

**4. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.**

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	Holl faterion cynllunio / All planning matters Rhoddion/Grants: Gŵyl Fawr Aberteifi
Y Cyng. / Cllr Graham Evans	Rhoddion/Grants: Gŵyl Fawr Aberteifi, Dydd Sadwrn Barlys/Barley Saturday Committee.
Y Cyng. / Cllr Marilyn Farmer	Rhoddion/Grants: Bro Teifi Sheltered Tenants’ Association
Y Cyng. / Cllr Richard Jones	Rhoddion/Grants: Pwyllgor Carnifal Aberteifi / Carnival
Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein	Rhoddion/Grants: Pwyllgor Carnifal Aberteifi / Carnival
Y Cyng. / Cllr Catrin Miles	Rhoddion/Grants: Gŵyl Fawr Aberteifi
Y Cyng. / Cllr Steffan Morgan	Rhoddion/Grants: Pwyllgor Carnifal Aberteifi / Carnival
Y Cyng. / Cllr Yvonne O’Neill	Rhoddion/Grants: Pwyllgor Carnifal Aberteifi / Carnival

**5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 6 Mawrth.**

Confirmation of Minutes of 6 March Council Meeting.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Debra Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer bod cofnodion cyfarfod 6 Mawrth yn gywir.**

Cllr Debra Griffiths proposed that the 6 March council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**

**Tud. 1344, eitem 8 (*Sutcliffe Play*): Mae banc y cwmni wedi gwrthod derbyn siec y cyngor am ei bod wedi ei hysgrifennu yn y Gymraeg. Oherwydd ei bod yn ddiwedd blwyddyn ariannol, bu raid i'r clerc wneud trosglwyddiad digidol BACS. Gofynnwyd i'r cwmni anfon y siec yn ôl ac i'r banc anfon llythyr o eglurhad (*gweler eitem 11[15]*).**

Page 1344, item 8 (*Sutcliffe Play*): The company's bank has refused to accept the cheque as it was written in Welsh. As the end of the financial year was upon us, the clerk transferred the payment digitally by BACS. He requested the company to return the cheque and the bank to forward a letter with an explanation (*see item 11[15]*).

**Tud. 1348, eitem 12 (*Plac Jonathan Jones*): Mae'r clerc wedi cysylltu gyda Jonathan a hefyd ysgrifenyddes Ben Lake, ac mae'r ddau wedi bodloni i'r dadorchuddio gymryd lle am 9.30yb ar 27 Ebrill. Bydd y Bachan Deche yn gosod y plac yn ei lle ar gefndir o bren caled.**

Page 1348, item 12 (*Jonathan Jones plaque*): The clerk has contacted Jonathan and Ben Lake's secretary and it was agreed to unveil the plaque at 9.30am on 27 April. The Handyperson will mount the plaque on hardwood.

**Mae'r clerc bellach wedi ffurfio rhaglen o'r digwyddiad gyda Mr Dai (Gorwel) Williams fel a ganlyn: ceir cyflwyniad gan y Maer, cefndir gan aelod o'r Hoelion Wyth, diolchiadau gan Mr Williams, y dadorchuddio gan Ben Lake, a'r diwedd glo gan Jonathan Jones. Cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Jones bod lluniaeth ysgafn yn cael ei darparu yng Ngwesty'r Grosvenor yn dilyn y digwyddiad.**

The clerk with the assistance of Mr Dai (Gorwel) Williams has prepared the order of proceedings as follows: an introduction by the Mayor, the background to the event by a member of Yr Hoelion Wyth, a vote of thanks by Mr Williams, the unveiling by Ben Lake and concluding observations by Jonathan Jones. Cllr John Adams-Lewis proposed that light refreshments be provided at the Grosvenor Hotel following the proceedings; seconded by Cllr Richard Jones.

**Tud. 1351 (*Is-bwyllgor 20 Mawrth*): Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion.**

**Cafwyd braslun o awgrymiadau'r Comisiwn fel a eglurwyd yng nghofnodion 6 Chwefror (tud. 1337) a'u trafodwyd. Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod Cyngor Tref Aberteifi yn argymhell bod tref Aberteifi i'w cynrychioli gan ddau gynghorydd mewn dwy ward ar wahân (Mwldan a Teifi) a bod wardiau presennol Teifi a Rhyd-y-fuwch yn cael eu huno fel un ward. Derbyniwyd y cynnig gan y cyngor. Ataliodd y Cyng. Graham Evans ei bleidlais.**

Page 1351 (*20 March Sub-committee*): Review of the Electoral Arrangements of the County of Ceredigion.

The proposals as set out by the Commission and detailed in the February council minutes (page 1337) were discussed. Cllr John Adams-Lewis proposed that Cardigan Town Council is in agreement that the town be served by two councillors in two distinct wards (Mwldan and Teifi) and that the present Teifi and Rhyd-y-fuwch wards be unified as one. The motion was seconded by Cllr Debra Griffiths and agreed by members. Cllr Graham Evans abstained from voting.

**7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

## 8. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A180248/9	NatWest Bank, 4 High Street	Remove existing NatWest brand signage and ATM. Internal: throughout the building carefully remove non-original fixtures, fittings, furniture and equipment relating to the operation of the branch.	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> The council has no objection.
A180292	Cardigan Boxing Club, Maes-yr-haf	<i>Codi estyniad i'r clwb bocsi presennol.</i> Erection of an extension to existing boxing club.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r datblygiad yn frwd.</i> The council strongly supports the extension.
A180322	Valley View, Troed-y-rhiw	<i>Estyniad deu-lawr.</i> Erection of a two-storey extension	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.

## 9. (a) Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
27/3/18	Siemens: <i>Prydles y llungopiwr</i> / Lease of photocopier	A17	D/D	£150.00 (25.00)
1/4/18	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor</i> / Rent of Council Office ( <i>Mawrth / March</i> ). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd</i> /Rent of Conference Room (6 & 20 <i>Mawrth / March</i> ) <i>Band Lydan (Ebrill)</i> / Broadband (April)	A9 A9 A20	D/D 4537 4537	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00)
26/3/18	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd</i> / Simultaneous translation (6/3/18)	A18	4538	£63.30 (0.00)
31/3/18	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc</i> / Clerk's Salary ( <i>Mawrth / March</i> )	A3	4539	£763.03 (0.00)
17/3/18	BT: Ffôn / Telephone	A20	4540	£84.31 (14.05)
9/3/18	David Evans & Sons: <i>Ysgythru</i> / Engraving of shield (Liam Doherty) and Past Mayor's insignia.	B5	4541	£7.90 (1.32)
28/2/18	Castell Aberteifi: <i>Hurio ystafell</i> / Hire of Tower Room (Place Plans), 20/2/18	A9	4542	£30.00 (5.00)
7/4/18	HMRC: PAYE £561.60, Class 1 NIC £107.67 ( <i>Ionawr, Chwef., Mawrth / Jan., Feb., March 2018</i> )	A16	4543	£567.30 (IT) + £109.89 (NIC) = £677.19 (0.00)
31/3/18	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson ( <i>Mawrth / March</i> )	A19	4544	£257.40 (42.90)
3/4/18	Insignia Business Solutions: <i>Labeli a phapur swyddfa.</i> Labels and office stationery.	A7	4545	£90.05 (15.01)

**Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill.**

Cllr Clive Davies proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Yvonne O'Neill.

### **Derbyniadau/Receipts:**

9/2/18	<i>Llog y Banc</i> / Bank interest	£1.32
9/3/18	<i>Llog y Banc</i> / Bank interest	£0.88
27/3/18	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council:</i> <i>Grant (offer / equipment for Pentop Playing Field)</i>	£4,082.00

## (b) Adroddiad Ariannol 2017-18. Financial Report 2017-18

### **Dosbarthwyd yr adroddiad ariannol yn y cyfarfod.**

The financial report was distributed at the meeting.

**Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod y cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad ariannol; eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis. Diolchodd y Cyng. Davies i'r clerch am ei waith prydlon ac effeithiol gyda'r cyfrifon.**

Cllr Clive Davies proposed that the council approves the financial report; this was seconded by Cllr John Adams-Lewis. Cllr Davies thanked the clerk for the prompt and efficient production of the accounts.

## 10. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

### (a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Mae'r gwaith i atal llifogydd o ardal uchaf Dôl y Dintir i Gnwcydintir bron ei gwblhau. Caiff coed a phlanhigion eu plannu maes o law ynghyd ag ailwynebu'r ffordd. Gobeithio na welir llifogydd o'r fath eto yn y cyffiniau.
- (ii) Mewn ymateb i lythyr anfonwyd at Ken Skates (dyddiedig 6 Chwefror), Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidaeth Llywodraeth Cymru, bydd yr adran yn ystyried y cais eto i ddatblygu'r llwybr o Gaemorgan i bentref Penyparc gan gymryd i gyfrif y costau o brynu'r tir a chostau'r cunllun.
- (iii) Mae'r cyngor sir wedi sicrhau y bydd arwyddion "Rhodfa'r Felin" yn eu lle cyn bo hir.
- (iv) Cynhelir cyngerdd i gefnogi elusen Oliver Giles yng Ngwesty'r Angel ar 15 Ebrill am 2.30yp.

### (b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Mae ymgyrch i lanhau glannau'r Afon Teifi i'w gynnal ar 15 Ebrill.
- (ii) Croesewir agoriad "Crwst" ar Stryd y Priordy yn fawr iawn.
- (iii) Yn dilyn y ddamwain drallodus ar y llithrfa yn y Strand, bydd mesurau diogelwch yn cael eu harchwilio a gwelliannau i'w rhoi mewn lle i sicrhau na ddigwydd damwain tebyg byth eto.
- (iv) Da oedd gan y Cyng. Miles gyhoeddi bod arian ychwanegol, fel rhan o Gynllun y 21ain Ganrif, ar gael i ysgolion lleol er mwyn cynnal a chadw'r adeiladau. Mae 124 o blant wedi eu cofrestru ym mlwyddyn 7 Ysgol Uwchradd Aberteifi ym mis Medi.

### (a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) The work to alleviate flooding in North Park is nearing completion. The plants and trees will be replanted and the road surfacing will be completed. It is hoped that future flooding in the area will now be controlled and limited.
- (ii) In response to Cllr Adams-Lewis' correspondence (dated 6 February) regarding the footpath along the A487 from Caemorgan Road to Penyparc, Ken Skates the Welsh Government Cabinet Secretary for Economy and Transport, has responded stating that the department will consider the development and it will be prioritised in accordance with the audit approach set out with the Active Travel Design Guidance with additional factors including land acquisition and project costs being taken into consideration.
- (iii) The county council has pledged that the "Rhodfa'r Felin" signs will be erected shortly.
- (iv) A concert in aid of the Oliver Giles fund will be held at the Angel Hotel on 15 April at 2.30pm.

### (b) Cllr Catrin Miles:

- (i) A project to clean the banks of the River Teifi is planned for 15 April.
- (ii) The opening of "Crwst" in Priory Street is most welcome.
- (iii) Following the tragic accident on the Strand slipway, measures are now in place to ensure that such an occurrence is never repeated.
- (iv) Local schools have benefited from the 21<sup>st</sup> Century Project to fund the maintenance of buildings. An intake of 124 pupils is expected in year 7 of Ysgol Uwchradd Aberteifi this coming September.

## 11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
1	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Hysbysiad ynglŷn â'r cynllun claddu ac amlosgi plant.</i> Notice in relation to the child burial and cremation grant scheme. <i>Mae'r cyngor sir yn gweithredu'r polisi yn barod.</i> The county council is already implementing the scheme.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 15/3/18. The CCC Cabinet resolved at its meeting on 26/9/18 to fully support the Welsh Government Association proposal to remove the charges of fees for child burials and cremations in Wales.
2	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure:</i> <i>Strydoedd arferol y dref ar gyfer gorymdaith Sioe Dydd Sadwrn Barlys.</i> Usual town street closure for Barley Saturday Show parade, 28/4/18, 1.30-4.00pm.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 20/3/18.
3	CSC / CCC (Eifion Evans): <i>Trefniadau ar gyfer y casgliadau gwastraff dros gyfnod y Pasg.</i> Arrangements for the waste collections over the Easter period.	<i>Mae'r posteri wedi eu harddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Notices have been displayed on the notice board.

4	CSC / CCC (Gwasanaethau Cyllid/Financial Services): <i>Manylion taliad grant am offer i Gae Chwarae Pentop.</i> Remittance advice for grant payment for equipment for Pentop Playing Field (£4,082).	<i>Nodwyd.</i> Noted.
5	CSC / CCC (Huw Williams): <i>Perchnogion Cŵn Anghyfrifol (Awgrymiadau'r cyngor sir i gyflwyno cynllun trwyddedu/cofrestru cŵn.)</i> Irresponsible Dog Ownership (Suggestions by the county council to introduce a scheme to register dog ownership)	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 30/3/18. <i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cynllun trwyddedu a argymhellir gan y cyngor sir.</i> The town council supports the introduction of a permitting or registration type scheme along with the level of fee that it would be reasonable to levy to register dogs. <i>Cynigiwyd gan/proposed by y Cyng./Cllr Graham Evans.</i> <i>Eiliwyd gan/seconded by y Cyng./Cllr Steffan Morgan.</i>
6	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure:</i> <i>Stryd Wiliam / William Street, 29/3/18, 7.00am-5.00pm.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 29/3/18.
7	CSC / CCC (Cerys Purches-Phillips): <i>Strategaeth Tai Lleol Ceredigion (Ymgynghoriad Cyhoeddus).</i> Ceredigion's Local Housing Policy (Public Consultation). Response by 18 May.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 27/3/18. <i>Mae copi digidol gan y clerc.</i> The clerk has recorded a digital copy.
8	<i>Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi:</i> <i>Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.</i> Cardigan Building Preservation Trust: Annual General Meeting, 28/3/18, 7.00pm at Ystafell Radley.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 21/3/18.
9	Elan City: <i>Hysbyseb/Advert for "The Evolis Radar Speed Sign"</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
10	D. E. Owen & Son: <i>Prisiau am dorri porfa Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed.</i> Quotation for the grass-cutting on King George 5 <sup>th</sup> Playing Field.	<i>Trafodwyd yng nghyfarfod yr is-bwyllgor.</i> Discussed at the 20/3/18 sub-committee meeting. Copy forwarded to Advisory Committee officers.
11	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys Aberteifi:</i> <i>Gwahoddiad i'r Maer gyflwyno gwobrau.</i> Cardigan Barley Saturday Show: Invitation to the Mayor to present trophies, 28/4/18.	<i>Mae'r Maer wedi derbyn y gwahoddiad.</i> The Mayor has accepted the invitation.
12	<i>Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: Dathliadau 200 mlynedd Cenhadon Neuadd-lwyd / Madagascar.</i> Union of Welsh Independent Churches: The Bicentenary Celebration of the Neuadd-lwyd / Madagascar missionaries.	<i>Mae'r cais am gymorth ariannol wedi ei drafod yn yr Is-bwyllgor Rhoddion.</i> The application for funding has been discussed at the Grants Sub-committee on 20/3/18.
13	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board:</i> <i>"Trawsnewid ein gwasanaeth iechyd" – Ymgynghoriad ar wasanaethau gofal iechyd.</i> "Our big NHS changes" – Consultation on healthcare services.	<i>Bydd y cynghorwyr canlynol yn mynychu'r digwyddiad:</i> The following councillors will attend the event on 30 April at Felinfach at 6.30pm: Y Cyng. / Cllr Debra Griffiths Y Cyng. / Cllr Siân Maherlein
14	Jonathan Longstaff: <i>Gwahoddiad i'r Maer agor digwyddiad ar yr afon Teifi ar 29 Gorffennaf.</i> Invitation to the Mayor to open a river event on the Teifi on 29 July.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei anfon i'r Maer Etholedig.</i> <i>The invitation has been forwarded to the Mayor Elect on 29/3/18.</i>
15	Lloyds Bank, Southampton (Josephine Durham): <i>Eglurhad am wrthod derbyn sic wedi ei hysgrifennu yn y Gymraeg.</i> Explanation why the Welsh-written cheque has been refused by the bank.	<i>Mae'r clerc wedi anfon y manylion ymlaen at Gomisiynydd y Gymraeg gan ofyn i'r awdurdod gysylltu gyda'r banc ac i weithredu yn ôl y gofyn.</i> The clerk has forwarded the details to the Welsh Language Commissioner requesting that they take appropriate action.
16	<i>Bachan Deche: Adroddiad Mawrth.</i> Handyperson: March Report	<i>I'w drafod tan eitem 13.</i> To be discussed under item 13.
17	<i>Cyngor Cymuned Llandudoch: Awgrym am sefydlu system cynnal a chadw meysydd chwarae.</i> St Dogmaels Community Council: Proposal for setting up an area playground maintenance contract.	<i>Mae'r cyngor yn bles gyda'r cynllun presennol o ddefnyddio gwasanaeth y Bachan Deche.</i> The town council is pleased with the present method practised with the services of the Handyperson.

**Cerys Purches-Phillips:** *Swyddog Cynorthwyol Strategaeth Tai a Monitro / Assistant Housing Strategy & Monitoring Officer*

**Eifion Evans:** *Prif Weithredwr / Chief Executive*

**Elin Jones:** *Swyddog Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Officer*

**Huw Williams:** *Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw / Head of Lifestyle Services.*

**Stephen Johnson:** *Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service*

**12. Ceisiadau am gymorth ariannol: Argymhellion yr Is-bwyllgor Grantiau (tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 adrannau 137, 142, 145)**

**Grant applications:** Recommendations of the Grants Sub-committee (under sections 137, 142, 145 of the Local Government Act 1972).

Bro Teifi Sheltered Tenants Association	£150
Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018	£200
Pwyllgor Carnifal Aberteifi	£1,000
Gŵyl Fawr Aberteifi 2018	£2,500
Theatr Felinfach	£100
Dydd Sadwrn Barlys / Barley Saturday Committee	£750
Clwb Ceir Clasuro Aberteifi / Cardigan Classic Car Club	£250
Cardigan Youth Project: Area 43	£500
Gofal Mewn Galar / Cruse Bereavement Care	£200
Gŵyl Afon a Bwyd / River & Food Festival	£500
Apêl Ambiwlans Awyr Cymru i Blant / Children's Wales Air Ambulance	£500
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: Dathliadau 200 mlynedd Cenhadon Neuadd-lwyd / Madagascar.	£200
Cronfa'r Maer / Mayor's Fund: (Pwyllgor y Carnifal/Carnival Committee & Pwll Nofio Aberteifi/Cardigan Swimming Pool)	£1,000

**Cynigiodd y Cyng. John Adams-Lewis bod argymhellion uchod yr Is-bwyllgor Rhoddion yn cael eu cymeradwyo; eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer.**

Clr John Adams-Lewis proposed that the above recommendations of the Grants Sub-committee be approved; this was seconded by Clr Marilyn Farmer.

**Cytunwyd trefnu noson i gyflwyno'r grantiau ar 24 Ebrill yn yr Ystafell Gynhadledd am 6.00 o'r gloch.**

It was agreed to organise the grant presentation evening on Tuesday, 24 April in the Conference Room at 6.00pm.

**13. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.**

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

**Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 20 Mawrth.**

Confirmation of 20 March Sub-committee Minutes.

**Tud. 1352: Dylai amser Seremoni Sefydlu'r Maer ddarllen 6.30 yn hytrach na 7.00yh.**

Page 1352: The commencement of the Mayor Making Ceremony should read 6.30pm and not 7.00pm.

**Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill bod cofnodion 20 Mawrth yn gywir.**

With the above amendment, Clr Graham Evans proposed that the 20 March minutes be recorded as correct; this was seconded by Clr Yvonne O'Neill.

**Materion yn codi    Matters arising**

**Tud. 1351 (Torri'r borfa): Cytunwyd bod y Bachan Deche yn trafod y mater o dorri'r borfa gydag aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol a swyddogion y Clwb Pêl-droed.**

Page 1351 (*Grasscutting*): It was agreed that members of the Advisory Committee and officers of Cardigan Football Club liaise with the Handyperson regarding the cutting of the football field surface.

**Tud. 1351 (Cymdeithas Aberteifi Society): Cytunwyd gyda'r argymhelliad bod y cyngor yn cefnogi Cymdeithas Aberteifi Society gyda'i harweiniad ar ddigwyddiadau Deucanmlwyddiant 2019.**

Page 1351 (*Cymdeithas Aberteifi Society*): It was agreed with the recommendation that Cardigan Town Council supports Cymdeithas Aberteifi Society with its leadership of the 2019 Bicentenary events.

**Adroddiad y Bachan Deche: Cytunwyd bod un llestr blodau yn cael ei symud o Feidrfair i Gilfach Penbont a bod y Bachan Deche yn penderfynu ar leoliad y lleill.**

*Handyperson's Report:* It was agreed to move one flower container from Feidrfair to Cilfach Penbont and the others to be moved at the discretion of the Handyperson.

**Castell Aberteifi:** Dywedodd y Cyng. Clive Davies bod y fynedfa newydd yn awr ar agor. Bydd y pen-arddwr yn cydweithio gyda swyddogion Pwyllgor Gefeillio Aberteifi/Brioude i ailosod planhigion a blodau yng Ngardd Brioude.

*Cardigan Castle:* The new main entrance is now open. The head gardener will collaborate with officers of the Aberteifi/Brioude Twinning Committee to re-plant flowers and bushes in the Brioude Garden.

*Maes Sgrialu:* Dywedodd y Cyng. Davies bod arbrofion yn cymryd lle ar wyneb y maes sgrialu. Mae gwaith ar baratoi prydles yn mynd ymlaen. Cynhelir jamborî sgrialu yno ar 25 Awst.

*Skateboard Park:* Cllr Davies stated that patch testing is on-going on the surface and that a lease is in preparation. A Skateboard Jamboree will be held on 25 August.

**Menter Aberteifi:** Gofynnwyd i gynrychiolydd y cyngor ar y bwrdd am atebion i'r cwestiynau canlynol: A ydyw'r safle we i Aberteifi yn cael ei ailffurfio? Beth yw'r diweddariad ar drefniadau Gŵl Afon a Bwyd 2018? A oes posibilrwydd rhoi neges electroneg dwyieithog ar lifft yr adeilad?

*Menter Aberteifi:* The council representative on the board was asked for answers to the following questions: Has the Cardigan website been redeveloped? Is there an update for the River & Food Festival? Can the messaging on the lift at the Guildhall be electronically adjusted to offer bilingual instructions?

**Pwyllgor Ymgynghorol Cae Chwarae Brenin Siôr Sed:** Mae pryder am y sbwriel sydd ger stand y clwb rygbi a hefyd ar hyd y llwybr rhwng y ddau glwb. Gofynnwyd i'r clerc anfon llythyr at y Clwb Rygbi yn gofyn iddynt wacáu'r biniau yn rheolaidd.

*King George 5<sup>th</sup> Playing Field Advisory Committee:* Concern was expressed at the litter and rubbish around the main stand and between the two clubhouses. The clerk was asked to forward a letter to the Rugby Club requesting regular emptying of the bins.

**14. Datganiad chwarterol y Maer ynglŷn â diogelwch ei gadwyn.**

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chain of office.

**Sicrhoad y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.**

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

**15. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies**

(i) **Drafft o Gytundeb cynllun wi-fi Aberteifi.**

**Cytunwyd trafod y cytundeb mewn cyfarfod o'r is-bwyllgor.**

Draft copy of the Cardigan Town wi-fi agreement.

It was agreed to discuss the agreement at a future sub-committee meeting.

(ii) **Cyfleustra parcio beiciau yn Aberteifi.**

**Cytunwyd bod darpariaeth ddigonol yn y dref ar hyn o bryd.**

Bike rack for public car parks in Cardigan.

It was agreed that the town presently has adequate provision.

(iii) **Hyfforddiant diffibriliwr, Ystafell Radley, 23/4/18, 2.00yp.**

Defibrillator training session at Ystafell Radley, Monday, 23 April at 2.00pm.

(b) **Y Cyng. / Cllr Marilyn Farmer**

(i) **Parcio ar balmentydd ar Ffordd Aberystwyth.**

**Awgrymwyd y dylid galw 101 gan adael neges neu lun o'r cerbyd troseddol i'r heddlu gymryd camau perthnasol.**

Vehicles parking on the Aberystwyth Road pavement.

It was recommended that complainants ring 101 and leave a message/photograph of the offending vehicle for the police to take action.

(c) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein**

(i) **Problemau parcio ar stad Maesglas. Cytunwyd gofyn i'r cyngor sir ystyried gosod mesurau i arafu'r drafniadaeth yn ardal Maesglas.**

Parking and traffic problems at Maesglas. It was agreed to request the county council to consider placing speed humps in the Maesglas area.

**Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.55yh**

*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.55pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....